# Monmouthshire Select Committee Minutes

**Meeting of Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc held at Remote Meeting on Dydd Iau, 25ain Mawrth, 2021 at 10.00 am**

| Cynghorwyr yn Bresennol | Swyddogion yn Bresennol |
|---|---|
| County Councillor T.Thomas (Cadeirydd)<br>County Councillor L. Brown (Vice Chairman)<br><br>County Councillors: L.Dymock, M.Groucutt, M.Lane and M. Powell | Will Mclean, Prif Swyddog Plant a Phobl Ifanc<br>Sharon Randall-Smith, Pennaeth Cyflawniad a Chyrhaeddiad<br>Hazel Ilett, Rheolwyr Craffu<br>Robert McGowan, Swyddog Polisi a Chraffu<br>Charlie-Jade Atkins, Youth Worker<br>Josh Klein, Youth and Community Officer |

**Ymddiheuriadau:** County Councillors J.Watkins

1. **Datganiadau o Fuddiant**

   Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

2. **Fforwm Agored i'r Cyhoedd**

   Nid oedd unrhyw aelodau o'r cyhoedd yn bresennol.

3. **Iechyd Meddwl Pobl Ifanc: Trafod gyda'r Gwasanaeth Ieuenctid bryderon plant a phobl ifanc am iechyd meddwl**

   Roedd Charlie-Jade Atkins a Josh Klein wedi cyflwyno'r adroddiad ac wedi ateb cwestiynau yr Aelodau.

   **Her:**

   *Pa fath o wybodaeth y mae pobl ifanc yn ei ddymuno, a hynny o ran cydberthynas ac addysg rhyw, problemau gyda delweddau'r corff a chyfryngau cymdeithasol, parch a chaniatâd ayyb? Sut ydym yn medru helpu gyda hyn?*

   Roeddem wedi cael sgwrs dda iawn yn ddiweddar gyda pherson ifanc mewn ysgol uwchradd, a oedd wedi danfon e-bost at y Pennaeth yn mynegi pryderon ac yn cynnig adborth am yr addysg rhyw. Roeddem wedi cwrdd â hi ac roedd hyn yn ddefnyddiol iawn. Roedd wedi ei brawychu gan ddiffyg dealltwriaeth ei ffrindiau. Roedd y pynciau a drafodwyd yn cynnwys: bod yn ddiogel yn gorfforol ac emosiynol, atal cenhedlu, sut i ddod i adnabod y person sydd yn agos i chi, pwysau gan ffrindiau, gwerthoedd teuluol, gyda phwy y dylid siarad er mwyn cael sgwrs dda, teimladau o euogrwydd a gwarth, cymhlethdod sy'n ymwneud gyda phleser a deimlir gan fenywod, disgwyliadau a hunanwerth, cywirdeb anatomegol, ac effaith cyfryngau cymdeithasol fel Instagram. Rydym wedi gweithio gyda llawer o bobl ifanc yn ystod y cyfnod clo sydd yn

wynebu heriau o ran materion fel hunanwerth a delweddau o'r corff, a hynny i'r pwynt fel bod rhai a oedd wedi gweithio gyda ni dros y cyfnod clo wedi penderfynu ymatal rhag rhyngweithio gyda ni ar alwadau fideo. Mae ein ffurflen ganiatâd ar-lein yn cynnwys rhoi dewis i bobl ifanc ynglŷn â'r ffordd y maent am ryngweithio gyda ni: mae llawer wedi dewis gwneud hyn drwy ffonio neu drwy neges destun, yn hytrach na galwad fideo. Mae 'Pornograffi Dial' a 'Sexting' hefyd yn bryderon sylweddol yn ogystal â gwybod am ble i fynd am help, gwybodaeth a dulliau atal cenhedlu, ynghyd â chaniatâd, rheoli risgiau a'r canlyniadau o fethu gwneud hyn.

*Mae'n wych i weld ei fod mor ymwybodol o'r hyn y maent yn dymuno. Dylai clinigau iechyd rhywiol fod yn llai diraddiol a chlinigol. Efallai y byddai sefydlu is-grŵp yn ddefnyddiol er mwyn gweithio ar y materion yma?*

Mae'r bobl ifanc yma eisoes yn cael y sgyrsiau yma ac yn chwilio am bobl i siarad gyda hwy – mae'r 'Friday Friendlies' wedi eu sefydlu er mwyn ateb y galw. Byddai'n beth da i Gynghorwyr i fynychu ac ymuno gyda'r sgyrsiau. Roedd yr Aelod Cabinet Sara Jones wedi mynychu sesiwn yn ddiweddar ar Gydraddoldeb Rhywiol, gan roi'r cyfle iddi siarad a gwrando ar bobl ifanc a oedd yn hynod ddefnyddiol.

*Martyn: Pan ein bod yn siarad am addysg rhyw a chydberthynas, un peth yr ydym yn gweld dro a dro yw pan ein bod yn cyrraedd pwynt argyfwng o ran trais yn erbyn menywod, dynion sydd yn gyfrifol am hyn gan amlaf. Mae yna broblem sylweddol o ran y gagendor rhwng dynion a menywod. Wrth edrych ar y cwricwlwm newydd i Gymru, mae yna rôl sylweddol i fudiadau ieuenctid i fod yn yr ysgolion a dylanwadu ar yr hyn sydd yn cael ei ddysgu.*

Rydym yn gweithio ar brosiectau Cyfranogiad a Shifftiau ac yn gweld pethau dros ein hunain. Efallai nad oes digon ohonom yn gweithio yn y meysydd yma. Mae datblygu'r Cwricwlwm newydd yn gyfle gwych i Wasanaethau Ieuenctid i chwarae rhan. Rydym wedi ein gwahodd i gyfarfod o'r staff ysgolion uwchradd sydd yn gyfrifol am ddatblygu SMRSE: rydym yn mynd i nodi'r gagendor yn y ddarpariaeth yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4, gan ystyried yr hyn y mae pobl ifanc wedi dweud wrthym, a'r anghenion sydd wedi eu nodi gan yr ysgol, ac rydym yn mynd i ddatblygu pecynnau teilwredig yn unol gyda'r cwricwlwm newydd. Mae'r sgyrsiau yma newydd ddechrau.

*O ran yr argymhellion, a ydym yn medru helpu drwy alw ar y sawl sydd yn cydlafurio ym maes gwasanaethau iechyd meddwl i oedolion (Aneurin Bevan, Mind, ayyb.) i ddod i'n pwyllgor ac ateb ein cwestiynau?*

Mae'r data o'r tabl addysg rhyw a barn pobl ifanc a fynegwyd yn y Gynhadledd Ieuenctid wedi eu rhannu gyda Senedd Ieuenctid Cymru a oedd wedi rhoi adborth i grŵp y cwricwlwm. Mae llawer o'r hyn yr ydym wedi trafod o ran gofynion pobl ifanc eisoes wedi ei rannu'n uniongyrchol.

*Rydych yn sôn am 'werthoedd teuluol' - a fydd yna bwyslais ar sefydlu perthynas gref a sefydlog, fel sydd wedi digwydd yn y gorffennol?*

Rydym yn ceisio ffocysu ar ddatblygu dygnwch pobl ifanc gan sicrhau eu bod yn meddu ar y rhwydweithiau a'n derbyn y cymorth cywir. Rydym yn gobeithio y bydd hyn oll yn cael ei ymgorffori yn yr hyn yr ydym yn bwriadu ei ddatblygu.

*Mae'n bwysig iawn cynnwys trais yn y cartref. Mae perthynas iach yn cynnwys parch a dim trais. Mae'n bwysig cynnwys sefydlu cydberthynas cryf ac iachus, ac nid annog dealltwriaeth fiolegol yn unig.*

Ydy - un o'r themâu a ddaeth i'r amlwg gan y bobl ifanc oedd eu bod am ddysgu mwy nag am yr elfen fiolegol yn unig, ond pob dim arall. Rydym wedi nodi hynny.

*Mae pobl ifanc sydd yn cael eu perswadio i dynnu lluniau o'u hunain, sydd wedyn yn cael eu gosod ar-lein yn bryder sylweddol. A oes pobl gennym sydd yn medru helpu'r bobl ifanc yma cyn eu bod yn mynd i gythrwfl?*

Oes, mae gwaith ieuenctid yn ymwneud gyda gwrando ar bobl, heb eu beirniadu. Rydym wedi cael llawer o adborth yn ystod y blynyddoedd diwethaf am 'Sexting', ac mae adnoddau da iawn ar gael. Pan ein bod yn siarad gyda phobl ifanc a rhieni am y broblem hon, mae'r cyfreithiau ynglŷn â hyn yn medru eu synnu h.y. os yw person ifanc sydd o dan 18 mlwydd oed yn tynnu llun o'i hun, mae'n creu 'delwedd anweddus o blentyn' ac wrth ddanfon y llun, mae'n 'dosbarthu', ac mae'r sawl sydd yn derbyn y llun mewn 'perchnogaeth'. Pan ddaeth y materion yma i'r amlwg yn ystod y blynyddoedd diwethaf, aeth yr Heddlu i ysgolion gan ddelio gyda'r broblem o safbwynt troseddol, ond wrth i ni ddeall y mater hwn yn well, addysg sydd wedi cael yr effaith fwyaf ar bobl ifanc. Mae nawr yn beth positif fod 'Pornograffi Dial' yn anghyfreithlon.

*Pa gysylltiad sydd gyda'n tîm Iechyd Meddwl a'u gwaith fel y Prosiect Mynydd Iâ?*

Mae'r prosiect Shifft, a'r gwaith iechyd meddwl a llesiant yr ydym yn ei wneud, yn ymatal rhag bod yn glinigol, gan ddefnyddio dulliau ac ymyriadau gwaith ieuenctid. Mae rhwydwaith gwych o'n cwmpas o arbenigwyr iechyd meddwl e.e. rydym wedi gwneud llawer o waith gyda Papyrus, sef grŵp sydd yn mynd i'r afael gyda hunanladdiad. Mae cronfa dda ardderchog gennym o fudiadau sydd yn medru cynnig cyngor, rhannu atgyfeiriadau ayyb. Mae'r fframwaith yno ar gyfer plant a phobl ifanc rhwng 11 a 18 ac rydym yn datblygu gwasanaethau ar gyfer y sawl rhwng 18 a 25. Byddem yn croesawu unrhyw awgrymiadau ynglŷn â mudiadau eraill i weithio gyda hwy.

**Crynodeb y Cadeirydd:**

Mae'r holl aelodau wedi elwa'n sylweddol gan y diweddariad hwn ac rydym yn ddiolchgar iawn i'r tîm am ei waith.

Byddai sefydlu is-grwpiau yn ddefnyddiol yn nifer o'r meysydd yma, fel sydd yn cael ei awgrymu gan y Cynghorydd Dymock. Rydym angen gwneud yr hyn y mae pobl ifanc yn ei ddymuno, nid yr hyn y mae'r Cyngor yn credu bod pobl ifanc yn ei ddymuno. Roedd y Cynghorydd Groucott wedi codi'r pwynt am drais rhywiol, sydd yn bryder sylweddol - rydym angen mynd i'r afael gyda hyn a'r agweddau sydd yn cyfrannu at hyn. Mae cydweithio gydag Aneurin Bevan a Mind ayyb. ar hyn yn syniad da. Awgrymodd y gellid, unwaith y flwyddyn o bosib, trefnu Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc lle y mae'r cyfarfod yn seiliedig ar ddymuniadau a dyheadau pobl ifanc neu mi allai'r bobl ifanc reoli'r pwyllgor. Roedd Aelodau wedi sôn am bwysigrwydd cydberthynas sydd yn gryf a sefydlog. Roedd y Cynghorydd Penny Jones wedi crybwyll y tîm iechyd meddwl a chyfrannu at y sesiynau 'Friday Friendlies', gan gynnwys siarad gyda phobl ifanc am wleidyddiaeth a sut y maent yn medru creu newid mewn cymdeithas.

Rydym yn derbyn yr argymhellion ac yn cynnig ein cefnogaeth i'r gwasanaeth ieuenctid. Dylem feithrin cysylltiadau rhwng Cyngor Sir Fynwy ac E2C, gan ddefnyddio'r E2C ar gyfer ffordd o ymgysylltu gyda phobl ifanc yn Sir Fynwy er mwyn llywio agendau a'r broses o wneud penderfyniadau. Bydd y drws i'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc yn parhau ar agor, ac rydym yn hapus iawn i gymryd rhan yn y sesiynau 'Friday Friendlies', os yw hynny yn ddefnyddiol. Byddwn yn llunio adroddiad blynyddol o'r hyn a wneir gan wasanaethau ieuenctid fel rhan o'r rhaglen waith.

4. **Adborth gan Estyn: Diweddariad llafar gan y Prif Swyddog ar yr adborth gan Estyn a dderbyniodd y Cyngor yn ddiweddar.**

Roedd Will McLean wedi siarad ag aelodau ac wedi ateb eu cwestiynau. Mae'r llythyr yr ydym wedi derbyn gan Estyn yn adlewyrchu'n dda'r gwaith yr ydym ni, ein hysgolion a chydweithwyr yn y GCA, wedi ei wneud er mwyn sicrhau bod y cyfnod pontio wedi bod mor effeithiol ag sydd yn bosib. Mae'r llythyr mewn dwy ran: Mawrth-Awst 2020 ac wedi Medi 2020. Mae Gwanwyn 2021 wedi bod yn gyfnod o gyfnod clo a dysgu o bell i lawer a bydd Estyn yn parhau i weithio gyda ni er mwyn asesu a thrafod sut y mae'r cyfnod hwn wedi ei reoli 'gystal. Rydym wedi cynnal ein hymweliadau Arolygwyr Cyswllt Awdurdod Lleol bob hanner tymor, er mwyn sicrhau bod Arolygwyr yn deall ein safbwynt a'r penderfyniadau yr ydym yn ei wneud.

Rhai pethau i'w nodi o'r llythyr hwn: o ran Arweinyddiaeth a Chydlafurio, rydym yn bles iawn eu bod yn cydnabod ein cyfathrebu a'n disgwyliadau eglur ar gyfer ysgolion a bod Aelodau wedi gofyn am ddiweddariadau wrth i bethau ddigwydd. Mae ansawdd y cwestiynau a lefel yr heriau gan Aelodau wedi bod yn dda.

Mae yna sylwadau diddorol ynglŷn â'r ffordd yr ydym wedi gweithio ag ysgolion. Nid ydym erioed wedi mabwysiadu 'un ateb sydd yn addas i bawb' - rydym yn cydnabod fod pob un ysgol yn meddu ar fathau gwahanol o bwysau, adeiladau, cymunedau ayyb. Rydym wedi gosod ffiniau a disgwyliadau clir ar gyfer ysgolion ond wedi rhoi'r hyblygrwydd iddynt ymateb mewn modd sydd yn diwallu eu hanghenion lleol.

Mae'r llythyr yn trafod ein penderfyniad am ddiwedd y tymor: roedd ein plant wedi dychwelyd am dair wythnos yn yr haf, a oedd yn golygu nad oeddem wedi cael wythnos ychwanegol o wyliau yn nhymor yr hydref. Roedd ysgolion ond wedi cael cynnal 30% o'r disgyblion yn ystod y cyfnod hwn. Yn ei hanfod, roedd plant wedi colli un diwrnod ar ddiwedd tymor yr haf ond wedi elwa o 5 diwrnod yn ystod tymor yr hydref. Yn sgil y lefel isel o ran sut oedd y feirws yn cael ei drosglwyddo yn Sir Fynwy, ni aflonyddwyd ar dymor yr hydref. Roedd y llythyr yn cydnabod na fyddai hyn yn cael effaith gydradd ar ddysgwyr ac rydym wedi mynd i'r afael gyda hyn o ran ein cynllunio a'n disgwyliadau.

Elfen bositif arall yw bod Estyn wedi siarad gyda'n hysgolion a ddywedodd eu bod yn teimlo ein bod wedi eu cefnogi. Mae'r papur hefyd yn cydnabod y gwaith da a wnaed gan gydweithwyr ym maes addysg a gwasanaethau cymdeithasol er mwyn sicrhau ein bod yn diwallu anghenion dysgwyr mwy bregus. Mae'n sôn am gyflenwi technoleg er mwyn sicrhau bod y dysgu cyfunol yn effeithiol, a'r ffordd y sefydlwyd hybiau gofal plant, a llefydd yn cael eu sicrhau ar gyfer y plant a oedd eu hangen. Wrth edrych yn ôl, mae modd i ni gydnabod pa mor gyflym y bu ein cydweithwyr yn gweithio, yr ymroddiad a roddwyd ganddynt a sut oeddynt wedi cydweithio gyda Phenaethiaid. Roedd y cyflymder o ran sefydlu hybiau gofal plant yn enghraifft dda o'n hymroddiad i gydweithio.

Mae'r ddogfen hon yn bositif iawn am ein perthynas gyda'r GCA. Rydym wedi bod yn eglur iawn yn ystod y pandemig fod rôl wahanol gennym: rôl yr awdurdod lleol yw cefnogi ysgolion, 'ymatebion tactegol' ayyb tra bod y GCA wedi darparu'r lefelau cywir o ddysgu proffesiynol er mwyn caniatáu bod modd datblygu dysgu cyfunol yn sylweddol a'n sicrhau bod arweinwyr yn

mynd i'r afael gyda'r her hon. Mae gwybodaeth wedi ei rhannu yn wythnosol mewn modd ardderchog.

Mae'r Pwyllgor wedi mynegi pryder ynglŷn â'r ffordd y mae'r dyfeisiau wedi eu rheoli. Ysgrifennwyd y ddogfen hon ychydig amser yn ôl; mae'r ffigyrau ar gyfer y nifer o ddyfeisiau sydd wedi eu darparu nawr dipyn yn uwch na hyn ac mae'r heriau caffael sydd wedi eu nodi yn y llythyr wedi eu lliniaru rhywfaint.

Mae yna arwyddion positif o'n cefnogaeth ar gyfer dysgwyr bregus: roedd 84% o'r dysgwyr bregus a nodwyd wedi manteisio ar y cyfle i sicrhau lle yn yr hybiau ysgol; o'r 16% sy'n weddill, roedd rhieni rhai plant ag anghenion cymhleth wedi penderfynu i gadw eu plant adref. Roeddem wedi parhau i weithio hyd at ddiwedd tymor yr haf ac wedi dechrau ar y gwaith o ddychwelyd ym mis Medi. Roedd hon yn foment bwysig gan fod y sefydlogrwydd yr oeddem yn medru cynnig ar draws y system ysgol yn golygu bod llawer o'n plant wedi cael cyfnodau di-dor yn yr ysgol. Rydym wedi elwa o gyfraddau trosglwyddo is o'u cymharu gyda rhanbarthau eraill ac roedd y buddsoddiad a wnaed yn nhymhorau'r gwanwyn a haf wedi ein helwa erbyn tymor yr hydref.

Mae'r llythyr yn cydnabod ein gwaith i gefnogi llesiant ein Penaethiaid. Roeddem wedi cysylltu gyda chyn-Bennaeth ac wedi gofyn iddo ddod 'nôl atom i weithio am gyfnod fel bod rhywun gan Benaethiaid i drafod materion a chafodd hyn ei groesawu.

Rydym yn parhau gyda'n gwaith gyda rhai o'r ysgolion er mwyn sicrhau eu bod yn teimlo eu bod wedi eu cefnogi a'u hymgysylltu'n llawn. Mae digwyddiadau sydd wedi eu cynnal gan ein hysgolion y term yma i roi trosolwg i aelodau o'r hyn a gynigir gan ddysgu cyfunol wedi eu croesawu. Dylai pawb ymfalchïo yn y modd y maent wedi darparu dysgu cyfunol mor effeithiol, a hynny o fewn cyn lleied o amser.

Tra bod tymor yr haf yn ymwneud gyda darparu gofal plant, y ffocws yn ystod y tymor hwn oedd darparu addysg. Yn gweithio ag ysgolion, rydym wedi adnabod dysgwyr bregus sydd wedi parhau i dderbyn dysgu wyneb i wyneb drwy gydol hyn oll, tra bod y nifer o blant y gweithwyr critigol yn ein hysgolion wedi parhau'n uchel. Hoffem ddiolch i'n holl gydweithwyr a'r cyrff llywodraethu ac rydym yn edrych ymlaen at ail-agor ysgolion yn llawn o'r 12fed Ebrill. Gyda mesurau yn eu lle ar gyfer Profion Llif Unffordd i athrawon a mesurau pellter cymdeithasol, rydym yn gobeithio y bydd hyn yn parhau i gadw cyfraddau yn is – nid ydym wedi cael canlyniad positif o ran y Profion Llif Unffordd.

**Her:**

*A oes unrhyw beth wedi ymddangos o'r ail don sydd wedi ychwanegu at y cymhlethdodau ym mywydau pobl ifanc, yn enwedig o ran y PRU?*

Mae'r ddarpariaeth PRU wedi bod yn ddiddorol iawn. Cafodd y plant eu hystyried yn ddysgwyr bregus, ac felly, parhawyd i roi addysg 'wyneb i wyneb' iddynt mewn ysgolion, sydd wedi bod yn bositif iawn. Mae'r gwaith a wneir gan y PRU i gefnogi plant yn ein canolfannau a'n darpariaeth fewnol wedi bod yn bwysig iawn. Mae'r plant yma fel arfer yn wynebu sawl her o ran eu haddysg. Rydym wedi gweld rhai manteision e.e. mae dysgu o bell a dysgu cyfunol wedi bod yn fantais. Mae'r pwysau presennol ar y PRU yn destun pryder ac yn codi cwestiynau ynglŷn â'r gallu i ddiwallu anghenion poblogaeth sydd yn tyfu. Mae yna ychydig o aflonyddwch wedi bod, h.y. symud i adeilad newydd yn Y Fenni ond mae'r gwasanaeth wedi ymateb yn bositif iawn i hynny. Wrth i ni symud i derm yr haf, byddwn yn cymryd yr amser i weithio yn agos iawn gyda'n dysgwyr er mwyn deall ble mae yna ddiffygion a'r hyn sydd angen ei wneud yn wahanol er mwyn delio gyda hyn.

*Rydym yn ffafrio dysgu yn y dosbarth. Gyda dysgu cyfunol, a oes yna ganllawiau wedi eu rhoi i staff ynglŷn â threulio gormod o amser ar y sgrin, a'r pwysau y mae hyn wedi rhoi ar lygaid athrawon?*
Rydym wedi gweithio'n agos gyda'n hysgolion ar lesiant athrawon. Rydym yn cwrdd gyda'r Cymdeithasau Proffesiynol bob pythefnos (bu'n gyfarfod wythnosol yn ystod y pandemig). Mae llawer o'n hysgolion wedi cynnig cyfuniad o ddysgu o bell cydamserol a dysgu o bell amghydamserol, ac felly, bydd rhan o'r diwrnod yn cynnwys dysgu byw a rhan eraill yn cynnwys tasgau sydd wedi eu gosod o flaen llaw. Roeddem wedi ceisio taro cydbwysedd rhwng y ddwy elfen hyn. Mae ein hysgolion wedi mabwysiadu dulliau gwahanol e.e. mae dwy ysgol wedi symud i wersi 100 munud, gan sicrhau bod athro ar gael ar y dechrau, yn gosod tasgau ayyb, ac yna mae'n elfen fyw yn dod i ben ac mae'r elfen amghydamserol yn digwydd, gyda'r athro efallai yn gwirio pethau ar y diwedd.
**Crynodeb y Cadeirydd:**
Diolch i'r Prif Swyddog am ei ymdrech yntau a'r tîm yn ystod y cyfnod anoddaf hwn, ynghyd ag unrhyw un sydd wedi gweithio yn y sector neu gyda'r sector addysg. Rydym ni, y rhieni a'r disgyblion, yn falch iawn fod plant nawr yn dychwelyd i'r ysgol. Rydym wedi nodi'r pryderon am PRU, a'r trafferthion o ddysgu ar-lein. Byddai ail flwyddyn, heb unrhyw arholiadau, yn her sylweddol.

## 5. Blaengynllun Gwaith Pwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc

Bydd yr Adroddiad Blynyddol drafft yn dod i'r cyfarfod nesaf. Byddai ystyriaeth o'r plant sydd yn derbyn prydau ysgol am ddim a'r plant o deuluoedd sydd ar incwm is yn ddefnyddiol yn y dyfodol agos. Byddwn yn ystyried craffu mwy ar waith y Gwasanaeth Ieuenctid, gyda'r awgrym o un eitem ar gyfer pob cyfarfod er mwyn trafod hyn.

## 6. Cynllunydd Gwaith y Cabinet a'r Cyngor

## 7. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol

- 19eg Ionawr 2021
- 11eg Chwefror 2021

Cadarnhawyd y cofnodion ac fe'u llofnodwyd fel cofnod cywrain.

## 8. Cadarnhau dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf (20 Mai 2021)

The meeting ended at **12.10 pm**